**CYNGOR**

**(*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 4 Medi 2019** |
|---|---|
| | |
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, S. ap Dafydd, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, C.Edwards, J.Evans, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, S.Harris, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, C.James, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, A.J.Taylor, R.L.Taylor, A.L.Thomas, D.Whitelock, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Berni, T.Davies, A.Evans, C.Furlow-Harris, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, G.Nutt, S.Phillips a/ac M.Shaw |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Present |

---

1. **DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR A'U CADARNHAU OS YSTYRIR BOD HYN YN ADDAS:**

Trafododd Aelodau fater cau Ysgol Gynradd Godre'r Graig fel a nodwyd yng Nghofnod Rhif 7 gofnodion blaenorol y cyngor. Pwysleisiodd Aelodau fod adeilad yr ysgol wedi'i gau, ond nid yr ysgol - byddai disgyblion yn dechrau'r tymor yr wythnos nesaf yn Ysgol Gymunedol Cwmtawe. Ychydig iawn o darfu a fu ar eu haddysg, a chadwyd disgyblion yn ddiogel.

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau cofnodion cyfarfod y cyngor isod fel cofnod cywir

17 Gorffennaf 2019.

2. **NEWID DYDDIAD Y CYFARFOD BLYNYDDOL**

**PENDERFYNWYD:** Y byddai'r cyfarfod Blynyddol y Cyngor 2020/21, yn cael ei gynnal ar 14 Mai 2020.

3. **ADRODDIAD BLYNYDDOL MAGU PLANT CORFFORAETHOL**

**PENDERFYNWYD:** Nodi adroddiad Blynyddol Magu Plant Corfforaethol 2017/18

4. **DATGANIAD GAN ARWEINYDD Y CYNGOR AR YR YMGYNGHORIAD AR GLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor wrth aelodau y byddai angen ymgynghori ymhellach â'r holl bartïon â diddordeb mewn perthynas â'r uchod. Ni fyddai llawer o'r cerbydau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y cyngor i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn addas i'w defnyddio mwyach o dan y ddogfen Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol. Nid oedd swyddogion yn gallu dweud yn union pryd byddai'r ymgynghoriad newydd yn cael ei gynnal na phryd y cyhoeddir y polisi newydd.

**PENDERFYNWYD:** Nodi'r datganiad llafar gan yr Arweinydd ar Bolisi Cymorth Cludiant o'r Cartref i'r Ysogl Castell-nedd Port Talbot 2020.

5. **DATGANIAD GAN DDIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR AR YR ARGYFWNG O RAN YR HINSAWDD**

**PENDERFYNWYD:** Nodi'r datganiad llafar gan Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ar yr argyfwng o ran yr hinsawdd.

6. **DERBYN Y CANLYNOL AC UNRHYW GWESTIYNAU A GODIR GAN YR AELODAU, NEU UNRHYW FATERION SYDD I'W CODI GAN AELODAU'R CABINET:-**

**PENDERFYNWYD** nodi'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Cabinet | 10 Gorffennaf 2019 |
| Addysg, Sgiliau a Diwylliant | 4 Gorffennaf 2019 |
| Strydlun a Pheirianneg | 5 Gorffennaf 2019 |
| Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles | 10 Mehefin 2019 |
| Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles | 25 Gorffennaf 2019 |
| Adfywio a Datblygu Cynaliadwy | 12 Gorffennaf 2019 |

7. **<u>RHYBUDD O GYNNIG DAN IS-ADRAN 10 O RAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) CYFANSODDIAD Y CYNGOR, WEDI'I GYNNIG GAN Y CYNG. D JONES AC A EILIWYD GAN Y CYNG. A.LLEWELYN FEL A GANLYN:</u>**

Derbyniodd Aelodau'r cyngor Rybudd o Gynnig dan Adran 10 o Ran 4 (Rheolau Gweithdrefnau) Cyfansoddiad y Cyngor, ynghylch cyfle cyfartal. Cynigiwyd y Cynnig gan y Cynghorydd D Jones, ei eilio gan y Cynghorydd Alun Llywelyn, a'i gymeradwyo gan Arweinydd Grŵp y Democratiaid Annibynnol.

Nododd aelodau y byddai symposiwm tlodi'n cael ei gynnal ar 20 medi 2019 ac nid 23 Medi, fel y nodwyd yn y Rhybudd o Gynnig.

**PENDERFYNWYD:** Yr ymrwymir yn llawn i gyfle cyfartal i bawb sy'n byw ac yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot neu sy'n ymweld â hi.

8. **<u>EITEMAU BRYS</u>**

Gyda chaniatâd y Maer, codwyd y materion canlynol fel eitemau brys.

<u>Rhesymau dros y brys:</u>

Oherwydd yr elfen amser.

9. **<u>DATGANIAD GAN DDIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR AR BREXIT</u>**

Derbyniodd Aelodau'r cyngor ddiweddariad llafar gan Ddirprwy Arweinydd y Cyngor am y datblygiadau sy'n parhau yn San Steffan

ynghylch Brexit. Byddai'r cyngor yn parhau i gyfrannu at gynllunio ar gyfer 'Brexit heb gytundeb', a byddai unrhyw arweiniad pellach a gyhoeddir gan San Steffan neu Fae Caerdydd yn cael ei gylchredeg i Aelodau er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD:** Nodi'r diweddariad llafar am Brexit.

## 10. NEWID ENWEBIAD AM DDIRPRWY FAER AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2020-21

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif Swyddog Digidol i'w drafod yn y cyfarfod. Gofynnwyd i Aelodau ohirio'r enwebiad blaenorol am rôl y Dirprwy Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2020-21 ac o ganlyniad, rôl y Maer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021-22, a chadarnhau'r enwebiad newydd ar gyfer yr un cyfnod.

**PENDERFYNWYD:**

1. Y byddai cais y Cynghorydd L M Purcell i ohirio derbyn rôl y Dirprwy Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2020-21 ac o ganlyniad, rôl y Maer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021-22, yn cael ei gymeradwyo.

2. Enwebu'r Cynghorydd J D Morgan ar gyfer rôl y Dirprwy Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2020-21, ac o ganlyniad, rôl y Maer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021-22.

**CADEIRYDD**